

Amgueddfa Cymru



Adrodd hanes Cymru yn Amgueddfa Cymru

Adnodd i gefnogi'r Her Gymunedol

CYMDEITHASOL/LLES
CREU ARDDANGOSFA NEU ARDDANGOSIAD

Creu Arddangosfa neu Arddangosiad

Mae gennym dîm o bobl yn Amgueddfa Cymru sy'n helpu i greu ein harddangosfeydd a'n harddangosiadau. Mae rôl benodol gan bob aelod o'r tîm. Mae pob aelod o'r tîm yn cydweithio i gyflawni eu tasgau.

Os bydd arddangosiad yn fach, efallai mai ychydig o bobl yn unig fydd ar y tîm. Ar y llaw arall, mae angen tîm mawr o bobl ar gyfer arddangosfa fawr. Yn dibynnu ar y math o arddangosfa, efallai y bydd angen i chi newid rolau neu ychwanegu rolau newydd.

Er enghraifft, efallai y bydd angen datblygwr rhyngweithiol (rhywun sy'n creu arddangosfeydd y gellir eu trin) ar arddangosfa ymarferol.

Yn gyffredinol, bydd tîm yr arddangosfa yn cynnwys y rolau canlynol:

[Rheolwr Project](#)

[Cynnwys ac Ymchwil](#)

[Dehongli](#)

[Gweithgareddau](#)

[Dylunio](#)

[Datblygu \(incwm\)](#)

[Cyfathrebu](#)

Mae rhestr o dasgau ynghlwm wrth bob rôl ac mae angen eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr arddangosfa neu'r arddangosiad yn cyflawni ei nodau a'i amcanion. Mae pob aelod o'r tîm yn helpu ei gilydd er mwyn sicrhau bod y tasgau'n cael eu cwblhau.

Defnyddiwch y **Tabl ar gyfer tîm arddangosfa** i archwilio'r rolau gwahanol o fewn tîm arddangosfa a chreu eich rolau eich hun o fewn eich grŵp.

Pa rôl fydddech chi'n teimlo'n gartrefol yn ei gwneud?

Enw	Rôl	Cyfrifoldeb
e.e. John Smith	Rheolwr Project	<ul style="list-style-type: none">• rheoli'r arddangosfa o ddydd i ddydd• gweithio gyda'r tîm i gytuno ar negeseuon allweddol yr arddangosfa (beth yw'r ffocws) a'r gynulleidfa darged (ar gyfer pwy mae'r arddangosfa)• gwneud yn siŵr bod yr arddangosfa yn agor yn brydlon ac nad ydym wedi gorwario!• gwirio bod pob aelod o'r tîm wedi cwblhau eu tasgau mewn pryd

Beth sy'n gwneud tîm da?

- Mae'r tîm yn canolbwyntio ar nod cyffredin
- Mae cyfathrebu da yn hanfodol
- Mae pawb yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd mewn modd gweithgar a chadarnhaol
- Mae aelodau unigol wedi ystyried dulliau creadigol o ddatrys y broblem
- Mae'r aelodau'n gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn cael adborth ystyrlon
- Mae pawb yn gwneud eu gorau i gwblhau tasgau
- Mae pob aelod o'r tîm yn ymddiried yn ei gilydd
- Mae'r tîm yn fodlon cymryd risgiau, ac mae pawb yn cefnogi'r project ac yn cefnogi ei gilydd
- Mae pawb yn deall nodau'r tîm a rhoddir amserlen realistig i bawb





Fi yw **Rheolwr Project** tîm yr arddangosfa. Ymhlith fy nghyfrifoldebau mae

- rheoli'r arddangosfa o ddydd i ddydd
- gweithio gyda'r tîm i gytuno ar negeseuon allweddol yr arddangosfa (beth yw'r ffocws) a'r gynulleidfa darged (ar gyfer pwy mae'r arddangosfa)
- gwneud yn siŵr bod yr arddangosfa yn agor yn brydlon ac nad ydym wedi gorwario!
- gwirio bod pob aelod o'r tîm wedi cwblhau eu tasgau mewn pryd



Rwy'n gyfrifol am ddatblygu'r **Digwyddiadau** i gefnogi'r arddangosfa. Mae hyn yn cynnwys

- ymchwilio i raglen o weithgareddau ac adnoddau sy'n targedu'r gynulleidfa ar gyfer yr arddangosfa a'u datblygu (er enghraifft byddai arddangosfa sydd wedi'i thargedu at deuluoedd sydd â phlant 7-11 oed yn cynnwys gweithgareddau i'r teulu yn ystod y penwythnos, gweithgareddau yn ystod y gwyliau a rhaglen i ysgolion ar gyfer cyfnod allweddol 2)
- cyflwyno'r rhaglen
- darparu manylion am yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith



Fi yw'r **Dylunydd**. Fy rôl yw

- cynhyrchu dyluniad cyffredinol ar gyfer yr arddangosfa
- trefnu'r gwaith o ddylunio graffeg 2D ac/neu elfennau 3D
- trefnu'r gwaith o gynhyrchu a gosod y dyluniad (yn dibynnu ar y dyluniad, byddai hyn yn golygu'r graffeg, y casys a'r gwaith adeiladu, nid y gwrthrychau)
- darparu manylion am yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith



Rwy'n gyfrifol am **Gynnwys ac Ymchwil**. Rhaid i mi

- ddatblygu cynnwys yr arddangosfa
- darparu rhestr o wrthrychau, sbesimenau ac unrhyw ddeunyddiau eraill ar gyfer yr arddangosfa, gan gynnwys eu gofynion o ran arddangos
- rheoli unrhyw ddeunyddiau a gaiff eu benthyg os bydd angen
- darparu manylion am yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith



Helo. Rwy'n gyfrifol am **Ddehongli**. Rhaid i mi

- gynhyrchu cynllun dehongli ar gyfer yr arddangosfa
- ysgrifennu'r testun ar gyfer unrhyw graffeg, taflenni, canllawiau a/neu ddeunydd amlgyfrwng mewn cydweithrediad ag aelodau eraill o'r tîm
- creu cynllun i werthuso adborth ymwelwyr ac ymgynghori â'r gynulleidfa darged
- darparu manylion am yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith



Rwy'n gyfrifol am **Ddatblygu**.
Mae fy rôl yn cynnwys

- gweithio gyda thîm yr arddangosfa i ystyried y ffyrdd gorau o gynhyrchu arian ar gyfer yr arddangosfa ac yn sgil yr arddangosfa – gallai hyn gynnwys ystyried a ddylid codi tâl mynediad neu chwilio am arian i dalu costau'r arddangosfa
- darparu manylion am yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith



Rwy'n gyfrifol am **Gyfathrebu**. Rhaid i mi

- ystyried y ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i'r arddangosfa a rhoi arweiniad i'r tîm
- creu cynllun marchnata i gynnwys taflenni, canllawiau a/neu wybodaeth ar-lein, yn dibynnu ar y gynulleidfa
- hyrwyddo'r arddangosfa drwy'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol
- darparu manylion am yr amser sydd ei angen i gyflawni'r gwaith